

DAVIES, LEWIS; 1863 - 1951), nofelydd, hanesydd lleol

Enw: Lewis Davies
Dyddiad geni: 1863
Dyddiad marw: 1951
Priod: Celia Davies (née Lewis)
Rhiant: Amy Davies
Rhiant: Lewis Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: nofelydd, hanesydd lleol
Maes gweithgaredd: Addysg; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Brinley Richards

Ganwyd yn Tramway, Hirwaun, Aberdâr, Morgannwg, 18 Mai 1863, yn blentyn ieuangaf Lewis ac Amy Davies. Yr oedd ei dad yn ffeinar ('refiner') yng ngwaith haearn Crawshay ar Hirwaun. Addysgwyd y mab yn ysgol elfennol Penderyn nes iddo aeddfedu yn ddisgybl athro. Enillodd ysgoloriaeth i'r Coleg Normal, Bangor, lle y bu'n fyfyrwr am ddwy fl. (1881-82). Bu'n ysgolfeistr ym Mhenderyn o 1884 hyd 1886 ac yna symudodd i'r Cymer yn Nyffryn Afan, lle y bu'n ysgolfeistr hyd ei ymdddeoliad yn 1926. Priododd Celia Lewis o Ben-y-pownd, Cwm Taf yn 1886. Bu'n ddiagon (am 60 mlynedd), ysgrifennydd (am 50 mlynedd) ac yn arweinydd y gân ac organydd eglwys (A) Hebron y Cymer. Bu'n gadeirydd cyngor dosbarth Glynccorwg, yn ynad heddwch ac yn gadeirydd mainc ynadon y plant yn Aberafan, yn arweinydd seindorf drum and five yn y Cymer ac yng Nghwm-parc ac yn arweinydd côr meibion Blaenau Afan. Ef oedd cyfansoddwr y dôn adnabyddus ' Cymer '. Beirniadodd mewn cannoedd o eisteddfodau lleol ar ganu, adrodd, traethodau a barddoniaeth a hefyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol Darlithiodd yn helaeth ar destunau llenyddol a cherddorol a hanesyddol a bu'n hyfforddwr ar y cynganeddion am lawer blwyddyn yn Ysgol Haf Llanwrtyd. Perthynai i genhedlaeth enwog o ysgolfeistri Cymraeg llengar a cherddgar. Enillodd tua 30 o wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol am storiâu, nofelau i blant, traethodau hanesyddol a daearyddol, nofelau hanes &c. Ei wobwr olaf oedd am nofel yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau yn 1949, ac yntau yn 86 oed, yn fusingrell ac yn ddall mewn un llygad. Yr oedd yn ail i **D. Rhys Phillips** yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd, 1918, am draethawd ar hanes Cwm Nedd. Ef oedd y colofnydd ' Eryr Craig y Llyn ' yn *Y Brython* a bu'n ohebydd cyson i bapurau'r De, yn genedlaethol ac yn lleol. Enillodd amryw gadeiriâu am farddoniaeth mewn eisteddfodau lleol. Yr oedd yn awdurdod ar dribannau Morgannwg, ac fe rannodd y wobwr am gasgliad gwych ohonynt yn Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr, 1948, ac yntau yn 85 oed. Ef oedd yr awdurdod ar hanes plwyf Penderyn, ac yr oedd ganddo ysgrifau hanesyddol ar ddyffryn Afan, Glynccorwg, Margam, Blaen-gwrach, Mynachlog Nedd, Morgannwg, &c. Cyhoeddodd *Radnorshire* (Cambridge University Press, 'County Series'), *Outlines of the history of the Afan districts*, *Ystoriâu Siluria*, *Bargodion hanes* a 4 nofel antur- *Lewsyn yr heliwr*, *Daff Owen*, *Y Geilwad bach* a *Wat Emwnt*. Erys nifer o'i weithiau heb eu cyhoeddi.

Bu farw 18 Mai 1951 ac fe'i claddwyd ym mynwent gyhoeddus Cymer-Afan. Dadorchuddiwyd cofeb iddo yng nghapel Hebron, y Cymer, yn ymyl cofeb i'w hen gyfaill, Syr William Jenkins.

Awdur

Brinley Richards, (1904 - 1981)

Ffynonellau

Brinley Richards, *Hamddena* (Abertawe 1972) (1972)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Lewis Davies](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13129533](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Erfrannu

Arddull APA

x

Richards, B., (1997). DAVIES, LEWIS; 1863 - 1951), nofelydd, hanesydd lleol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-DAVI-LEW-1863>

Erfrannu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd yr
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government